

<b>Adroddiad i:</b>	<b>Y Pwyllgor Archwilio Cymunedau</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>28 Chwefror 2013</b>
<b>Aelod Arweiniol:</b>	<b>Aelod Arweiniol dros Fannau Cyhoeddus</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Adolygu cyflwyno cynllun ailgylchu 'X2'.</b>

---

### **1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?**

Cyflwyno rhaglen ailgylchu'r Cyngor, X2, yn ne'r sir fis Tachwedd 2012.

### **2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Roedd yna gyfres o broblemau gyda'r cyflwyno. Mae'r adroddiad hwn yn nodi beth aeth o'i le, beth a wnaed i'w hunioni a pha wersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol.

### **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Fod y Pwyllgor yn trafod yr adroddiad ac yn cyflwyno sylwadau ar ei gynnwys ac yn:

- 3.1 Cytuno y dylid defnyddio'r gwersi a ddysgwyd fel sail ar gyfer cynllunio newidiadau yn y dyfodol.
- 3.2 Cytuno i roi cyhoeddusrwydd i ganlyniadau'r cyflwyno gynted ag y bydd ffigurau dibynadwy ar gael; a
- 3.3 Cefnogi'r cynnig y dylai'r cyhoeddusrwydd i'r ffigurau canlyniadau gynnwys ymddiheuriad am y problemau a gafwyd wrth gyflwyno a hefyd eglurhad o'r hyn a aeth o'i le.

### **4. Cefndir**

Cymerodd y Cyngor Sir y penderfyniad i fabwysiadu system casglu ailgylchu X2 yn 2005. O 2006 ymlaen, roedd y system yn cael ei chyflwyno'n raddol, yng ngogledd y sir yn gyntaf ac yna i Ruthun a Dinbych. Rhan olaf fawr y broses oedd ei chyflwyno i'r ardaloedd gwledig yn 2012, yn gyntaf yng ngogledd y sir ac yna yn y de. Y rhaglen i gyflwyno yn y de oedd yr un fwyaf erioed. Roedd 16,000 o eiddo yn cael eu heffeithio, 10,000 yn derbyn y system X2 am y tro cyntaf.

## 5. Y penderfyniadau a gymerwyd cyn cyflwyno yn 2012

Mae dadansoddiad o'r penderfyniadau arwyddocaol a gymerwyd cyn cyflwyno yn Atodiad 1. Prif gasgliad Atodiad 1 yw y byddai'r cyflwyniad wedi bod yn well pe byddai wedi'i ohirio tan y gwanwyn 2013. Fodd bynnag, y farn yw bod y penderfyniad i fabwysiadu system parthau (ar un cam) ac i ddefnyddio system gyfrifiadurol ar gyfer penderfynu ar y llwybrau gorau, yn briodol (mae'r rhesymau yn Atodiad 1).

## 6. Problemau Gweithredu

- 6.1 Archebwyd y biniau fis Gorffennaf 2012 ac, o hynny ymlaen, roedd y Cyngor wedi'i glymu, mewn gwirionedd, i gyflwyno'r system yn yr hydref. Roedd y biniau'n cael eu cynhyrchu yn yr Almaen. Roedd eitemau eraill yn cael eu cynhyrchu yn yr India. Cyrhaeddodd y biniau ar amser, a hefyd y pecynnau gwybodaeth. Roedd y biniau bach ar gyfer bwyd ychydig yn hwyr yn cyrraedd, ond cyn y dyddiad cyflwyno, felly, nid oedd hynny'n amhara ar y gwaith.
- 6.2 Bu oedi o fis nes i'r sachau mawr gyrraedd oherwydd streic ddociau yn yr India. Achosodd hyn oedi o bythefnos i'r rhaglen gyflwyno (tan 5 Tachwedd). Ni ellid oedi ymhellach gan fod y Nadolig mor agos. Dyma ganlyniad y penderfyniad i gyflwyno yn yr hydref.
- 6.3 Mewn gwirionedd, cyrhaeddodd y sachau mawr bum diwrnod ar ôl dechrau cyflwyno'r offer ac amharodd yr oedi hwn ar waith danfon y contractwr (roedd yn rhaid mynd yn ôl i fannau oedd eisoes wedi cael ymweliad) a chafwyd llawer o alwadau ffôn ynghylch "*pam fod rhannau o fy offer ar goll*".
- 6.4 Cafodd y rowndiau a gafwyd drwy'r system gyfrifiadurol eu dadansoddi. Roedden nhw'n ymddangos yn realistig ac yn ddichonadwy. Fodd bynnag, gwelwyd yn ddiweddarach nad oedd cyfran helaeth o'r eiddo gwledig mwyaf anghysbell ar fasdata'r system newydd h.y. doedd yr eiddo ddim yno.
- 6.5 Hefyd, roedd y staff a oedd yn danfon yr offer yn methu a chanfod llawer o'r eiddo gwledig. Roedd hyn yn rhannol oherwydd safon y mapiau oedd ar gael ond hefyd oherwydd trafferthion dod o hyd i eiddo ymhell o'r ffordd fawr, yn aml heb enwau arnyn nhw.
- 6.6 Cafodd yr is-contractwr danfon ei ddewis oherwydd ei fod wedi cymryd rhan mewn cyflwyno mewn ardaloedd gwledig o'r blaen. Fodd bynnag, roedd wedi tanamcangyfrif yn sylweddol yr amser y byddai'r broses yn ei gymryd. Golygodd hynny, yn ogystal â'r bylchau a nodir yn 6.4 uchod, bod y cyfnod danfon wedi cymryd ddwywaith yn hwy na'r disgwyl.
- 6.7 O ganlyniad i 6.4 a 6.5 uchod, ni chyrrhaeddodd yr offer roedden nhw i fod i'w dderbyn tua 10% o'r eiddo. Hyn, mewn gwirionedd, oedd wrth wraidd y rhan fwyaf o'r galwadau ffôn yn cwyno a dderbyniwyd trwy'r system Rheoli Perthynas Cwsmeriaid.
- 6.8 Mae'r egwyddor o rannu rowndiau casglu yn 'barthau' yn un gadarn. Ond, pan fydd parthau'n cael eu sefydlu, mae yn cymryd amser i'r criwiau ddod i adnabod eu hardaloedd newydd. Pan gyflwynwyd hyn mewn ardaloedd eraill, roedd y broses yn un eithaf cyflym. Ond, doedd neb wedi sylweddoli mor wahanol oedd ardaloedd hynod wledig ac nid oedd unrhyw fesurau lliniaru wedi'u paratoi ymlaen llaw.

- 6.9 Pe byddai'r cyflwyno wedi'i ddal yn ôl tan (dyweder) Ebrill, byddai'r broses gyfarwyddo wedi bod dipyn cynt. Gallai'r criwiau casglu fod wedi gallu gweithio gyda'r nosau. Fe fyddan nhw wedi gallu mynd yn ôl i gasglu'r hyn oedd wedi'i fethu ac wedi cofio am y rhain erbyn yr wythnos ganlynol. Roedd hi'n dywyll erbyn 4.30pm fis Tachwedd ac roedd yn rhaid rhoi'r gorau i weithio. Nid y staff oedd yn casglu'r rownd honno oedd yn casglu'r hyn oedd wedi'i fethu ac felly roedd y broses ddysgu yn cymryd llawer hirach.
- 6.10 Arweiniodd yr oedi cynyddol gyda danfon offer at drigolion Corwen yn cael gwybodaeth yn rhy hwyr i rwystro'r rhan fwyaf rhag gosod eu hysbwriel allan ddydd Llun 19 Tachwedd. O dan y cynllun newydd, y dyddiad casglu cywir oedd dydd Gwener 23 Tachwedd. Roedd y dryswch gyda delio â'r 'casgliadau coll' yn achosi rhagor o broblemau am wythnosau lawer. Does dim amheuaeth nad oedd hyn yn effeithio ar enw da'r gwasanaeth a'r Cyngor, yn enwedig yn Nyffryn Dyfrdwy.

## **7. Adfer**

- 7.1 Daeth yn amlwg yn ystod wythnos gyntaf y drefn gasglu newydd fod y problemau oedd yn codi yn llawer mwy eang a difrifol nag a oedd wedi'i ragweld. Datblygodd y gwasanaeth raglen adfer er mwyn taclo'r problemau oedd yn codi.
- 7.2 Chwaraeodd yr Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid ran allweddol mewn rheoli'r galwadau ffôn oedd yn cyrraedd. Bu staff y Gwasanaethau Amgylcheddol yn dadansoddi ac yn categoreiddio ymholiadau cwsmeriaid gan dalu sylw penodol at gasgliadau cymorth.
- 7.3 Cafwyd rhagor o help i ddanfon offer i eiddo nad oedd wedi'i gael a bu swyddogion gweinyddol yn helpu swyddogion gwastraff i gysylltu â chwsmeriaid i ganfod beth oedd ei angen ayb.
- 7.4 Roedd hyn, mewn gwirionedd, yn dîm ymateb argyfwng lle'r oedd pawb yn cydweithio. Bu staff yn paratoi dadansoddiadau bwlch i ganfod beth oedd achos y pryderon oedd yn cael eu mynegi yng ngalwadau ffôn cwsmeriaid. Cafodd rowndiau casglu eu newid ond gan adael y system parthau a'r dyddiau casglu yr un fath. Cafodd y criwiau fapiau gwell a gwell gwybodaeth. Helpodd y criwiau'r rheolwyr i ddatblygu a phrofi'r trefniadau newydd. Cafwyd cydweithrediad a chryfanogaeth llawn gan bob aelod o staff. Gwnaeth pawb yr hyn a allen nhw i helpu.
- 7.5 Yn ogystal â'r problemau gyda'r offer coll, roedd yn rhaid i'r tîm gwastraff ymdrin hefyd â'r problemau cyflwyno y gellid eu disgwyl, megis a yw biniau olwyn yn addas ar gyfer rhai eiddo.
- 7.6 Mae costau'r adnoddau roedd yn rhaid eu defnyddio er mwyn adfer y sefyllfa i'w gweld yn Atodiad 2. Mae patrwm yr ymholiadau a ddaeth o'r system Rheoli Perthynas Cwsmeriaid yn cael ei ddangos yn Atodiad 3. Cafwyd 26 o gwynion ffurfiol ynghylch lefel gwasanaeth yn ystod y cyflwyno. Cafodd 21 o'r rhain eu derbyn, tri eu derbyn yn rhannol a chafodd dwy eu gwrthod.

## **8. Y Gwersi a Ddysgwyd**

- 8.1 Yn ystod haf 2012, roedd staff allweddol yn brysur gyda gwaith ar y Contract Gwastraff Bwyd rhanbarthol yr oedd Sir Ddinbych yn awdurdod arweiniol ar ei

gyfer. Roedd hyn yn cael effaith ar y gwaith paratoi cyn cyflwyno ac effeithiodd hynny yn ei dro ar y broses weithredu.

- 8.2 Ni ragwelwyd y byddai yna gymaint o oedi gyda'r prosiect Gwastraff Bwyd (tynnodd y bidiwr a ffebrid allan a bu'n rhaid ail ddechrau trafod gyda'r bidiwr a ddaeth yn ail). Y wers gyntaf ar gyfer y dyfodol yw bod yn rhaid cael digon o amser wrth gefn ar gyfer pob amgylchiad.
- 8.3 Yr ail wers yw y dylid dechrau ar waith cyflwyno mawr yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf, nid yn ystod yr hydref a'r gaeaf, hyd yn oed os yw'r oedi yn siomi rhai sydd wedi bod yn disgwyl i'r gwasanaeth wella.
- 8.4 Mae'n rhaid rheoli disgwyliaidau'n fwy gofalus / geidwadol.
- 8.5 Y bedwaredd wers yw, os bwriedir newid gwasanaeth, y dylid cofnodi gwybodaeth y criwiau casglu'n llawer gwell, h.y. drwy broses ddadansoddi drylwyr a manwl.

## **9. Gweithredu yn y Dyfodol**

- 9.1 Ni ellir cyflwyno gwasanaeth fel hwn heb rywfaint o amharu ac o ddenu sylwadau anffafriol. Mae yna nifer o enghreifftiau o hyn hyd a lled y DU, gan gynnwys mewn rhai awdurdodau gyda llawer mwy o adnoddau nag sydd gan Sir Ddinbych.
- 9.2 Rydyn ni'n ffodus yn Sir Ddinbych fod y gwasanaeth rheoli gwastraff wedi cael cymaint o adborth oddi wrth gwsmeriaid. Mae hyn yn rhannol oherwydd natur y system X2 ei hunan. Ar y cyfan, mae pobl yn gwerthfawrogi ei hwylustod a'i bod yn hawdd ei defnyddio.
- 9.3 Y ffordd orau o adfer enw da yw trwy ddarparu gwasanaeth sy'n cael ei redeg yn ardderchog a gwneud yn siŵr ein bod yn cadw llygad barcud ar lefelau darparu, yn enwedig yn yr ardaloedd a gafodd eu heffeithio waethaf. Os gallwn ni wneud hynny, gellir ystyried mai eithriad tymor byr oedd y problemau cyflwyno.
- 9.4 Yn ystod y misoedd nesaf, bydd y gwasanaeth yn ceisio gwneud iawn am y difrod drwy ymddiheuro am y problemau a gododd ond hefyd drwy roi cyhoeddusrwydd i effaith bositif y cynllun newydd ar effeithiolrwydd trefniadau ailgylchu yn y de.
- 9.5 Fis Rhagfyr, cofnododd gorsaf drosglwyddo Rhuthun gynnydd o 29% yn y defnyddiau ail gylchu sych a gasglwyd (o gymharu misoedd Rhagfyr â Hydref) a chynnydd o 34% yn y gwastraff bwyd a ailgylchwyd. Mae crynodeb o'r arbedion o ganlyniad i hynny yn Atodiad 2.
- 9.6 Bydd buddion perfformiad ailgylchu Sir Ddinbych yn dod yn fwy adnabyddus pan fydd y set gyntaf o ystadegau chwarterol yn cael eu rhyddhau. Rhagwelir y dylai ein perfformiad ailgylchu fod ymhell dros 60%, h.y. gan gadarnhau safle Sir Ddinbych fel y sir sy'n ailgylchu fwyaf yng Nghymru ac un o'r goreuon yn y DU.

## **10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid** Amherthnasol

### **Swyddog Cyswllt:**

Pennaeth Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

Ffôn : 01824 712123